# CYNGOR YR UNDEB
# SYNIADAU

WWW.UMABER.CO.UK

#CHANGEABER

23/11/2015

# SYNIADAU


Atodlen 3 ac Is-ddeddf 1 newydd 3

Rhyddhau arian Clybiau a Chymdeithasau sydd wedi bod yn segur ers amser hir 4

Tai Preifat Aberystwyth 5


*Os oes angen hew mewn fformat arall, cysylltwch â Dan Meehan ar undeb.democratiaeth@aber.ac.uk*

# ATODLEN 3 AC IS-DDEDDF 1 NEWYDD

## Y Sefyllfa:

1. Mae gan Undeb Myfyrwyr Aberystwyth ddyletswydd gyfreithiol i fod â chyfansoddiad a dogfennau llywodraethu sy'n gosod allan yn eglur pam ein bod ni'n bodoli, yr hyn y gallwn ei wneud a sut rydym yn mynd i wneud hynny.
2. Mae'r Undeb wedi bod yn gweithio ar yr holl ddogfennau llywodraethu, ond mae angen i'r aelodaeth eu cymeradwyo cyn y gallant ddod yn realiti.

## Barn y Bobl:

1. Mae'r Weithdrefn Gwynion (3.1) a'r Weithdrefn Ddisgyblaeth (3.2) newydd yn ei gwneud yn eglurach sut i weithredu mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan sicrhau eich hawliau fel aelodau.
2. Mae Is-ddeddf 1 yn ei gwneud yn haws deall sut i redeg etholiadau, ynghyd â sicrhau bod y canllawiau'n gywir ac yn gyfoes â gweddill y cyfansoddiad.

## Y Datrysiad:

1. Bydd Cyngor yr Undeb yn cymeradwyo ac yn derbyn Atodlen 3.1, 3.2 ac Is-ddeddf 1.

*Cynigydd:* Lewis Donnelly (Llywydd)

*Eilydd:* Kelly Keat (Swyddog Gweithgareddau)

# RHYDDHAU ARIAN CLYBIAU A CHYMDEITHASAU SYDD WEDI BOD YN SEGUR ERS AMSER HIR

## Y Sefyllfa:

3. Mae yno ar hyn o bryd tua 60 o glybiau a chymdeithasau â chyfrifon banc sy'n segur. Mae gan tua 45 o'r rhain arian yn eu cyfrifon banc sy'n eistedd yno'n gwneud dim byd. Mae'n anhebygol iawn y bydd llawer o'r cymdeithasau a chlybiau chwaraeon hyn yn ailddechrau eleni.

## Barn y Bobl:

3. Mae'n wastraff i'r arian yma eistedd mewn cyfrifon yn gwneud dim byd. Gallai'r arian yma fod o gryn gymorth i glybiau a chymdeithasau, er enghraifft i sefydlu cronfa ar gyfer dechrau clybiau a chymdeithasau newydd. Gellid hefyd defnyddio'r arian ar gyfer ehangu'r gronfa hyfforddi a chynyddu cynrychiolaeth.

## Y Datrysiad:

2. Newid y dogfennau Chwaraeon a Chymdeithasau i gynnwys y canlynol fel proses hir-dymor (yn seiliedig ar y broses a ddefnyddir yn UM Cumbria yn ogystal â sawl UM arall):
   a. *Unwaith y bydd Grŵp yn methu dychwelyd ei ffurflen pwyllgor erbyn y dyddiad cau, fe'i ystyrir i fod yn segur a/neu wedi dirwyn ei ymaelodaeth i ben.*
   b. *Caiff y llinell ar gyfer y cyfrif ei chau a'i nodi ar un llinell (balans positif neu negyddol) mewn cyfrif dal.*
   c. *Os caiff grŵp ei ailddechrau yn y 2 flynedd ganlynol, caiff y balans ei symud o'r cyfrif dal i gyfrif newydd - ni fyddai'r grŵp yma'n derbyn unrhyw arian cychwynnol.*
   d. *Cynhelir adolygiad o'r cyfrif dal ddwywaith y flwyddyn, gan ddibynnu ar y dyddiad y trosglwyddwyd yr arian - os yw hyn y parhau am fwy na 24 mis, yna trosglwyddir y balans i 'Gronfa Ddatblygu' ar gyfer clybiau a chymdeithasau newydd.*
   e. *I ddechrau'r gronfa, caiff arian o bob cyfrif sydd wedi bod yn segur am 24 mis (dim trafodion na ffurflen fandad) ei drosglwyddo i'r gronfa newydd.*

*Cynigydd:* Kelly Keat (Swyddog Gweithgareddau)

# TAI PREIFAT ABERYSTWYTH

## Y Sefyllfa:

1. Rydw i ac aelodau o grŵp Adain Chwith Aberystwyth wedi gwneud ymholiadau, ac rydym wedi darganfod nad oes gan y Brifysgol 'restr-ddu' o asiantaethau tai a landlordiaid yn Aberystwyth. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith fod yr Undeb wedi cyhoeddi arolwg ar *Survey Monkey* yn ddiweddar, ond nid oeddem yn teimlo bod yr arolwg yn darparu digon i gyfle i raddio eich profiad o rentu preifat, a'i fod yn brin o system raddio effeithiol.

## Barn y Bobl:

1. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith fod mwyafrif llethol o fyfyrwyr yn Aberystwyth yn anfodlon â'u tenantiaeth yn y sector breifat, gan eu bod yn teimlo nad yw landlordiaid yn diwallu eu hoblygiadau cytundebol. Mae hyn yn effeithio ar lesiant myfyrwyr, ac o'r herwydd mae llai o fyfyrwyr yn rhentu tai a fflatiau yn Aberystwyth, sy'n cael effaith ar y diwydiant tai. Rydym nid yn unig yn teimlo cyfrifoldeb dros ein cyd-fyfyrwyr i sicrhau safonau byw digonol ac i amddiffyn eu llesiant, ond teimlwn oblygiadau tuag at y dref.
2. Rydym am weld asiantaethau tai a landlordiaid yn sylweddoli bod yno angen am ryw fath o orfodaeth o ran cyfrifoldeb rhwng landlordiaid a thenantiaid i sicrhau nad yw myfyrwyr yn talu symiau sylweddol o arian am amodau byw annerbyniol.

## Y Datrysiad:

1. Rydw i a grŵp Adain Chwith Aber wedi creu arolwg drafft fydd yn galluogi myfyrwyr i raddio eu profiadau â'u landlord/asiant tai, ynghyd â darparu sylwadau ynglŷn â'u boddhad neu anfodlonrwydd â'u tenantiaeth
2. Rydym hefyd wedi trafod cyflwyno lluniau o gyflwr da/gwael eu llety; byddai hyn wedi ei gyfyngu er mwyn sicrhau bod unigolion yn gallu anfon lluniau i ni yn anhysbys. Byddaf nawr yn cyflwyno'r ddau syniad ar gyfer arolygon; rydym yn ddigon bodlon trafod/gwella/newid y rhain.
    a. *Syniad #1 ar gyfer Arolwg Cynnal arolwg ymysg myfyrwyr ar eu llety, gan ofyn iddynt raddio pob adran o'u llety. Wedyn casglu'r canlyniadau i gyd at ei gilydd a llunio tabl*

*cynghrair, gan osod y landlordiaid/asiantau tai gorau ar ben y tabl, a'r rhai gwaethaf ar y gwaelod.*

b. *Syniad #2 ar gyfer Arolwg Cael myfyrwyr i anfon lluniau manwl o rannau gwael o'u llety, sydd heb gael ei drwsio gan asiantaethau gosod eiddo/landlordiaid (e.e. gwydr wedi torri, lleithder). Wedyn caiff y lluniau eu hanfon ymlaen (a'u hadolygu er mwyn sicrhau bod y sawl sydd wedi eu hanfon yn parhau i fod yn anhysbys). Yn dilyn y broses adolygu, caiff y llun ei osod yn ddienw ar dudalen Facebook/gwefan ynghyd ag enw'r landlord a/neu'r asiant gosod eiddo.*

*Cynigydd:* Poppy Evans